



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Suzy Davies AC
Suzy.Davies@assembly.wales

27 Mehefin 2019

Annwyl Suzy,

Yn ystod Cwestiynau Busnes yr wythnos diwethaf, gofynnoch gwestiwn ynghylch yr ymgynghoriad ar ddiwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhan o'r ymarfer i gysoni ffiniau cyllidebu a chyfrifyddu – sef argymhelliad gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn dilyn ei ymchwiliad i Brosesau Arferion Gorau Cyllidebu yn 2015. Dyma weithdrefn dechnegol a fydd yn caniatáu i adnoddau cyrff yn y sector llywodraeth ganolog gael eu cynnwys mewn cynnig cyllidebol a gyflwynir o dan adran 125 neu 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Oherwydd natur dechnegol y Gorchymyn hwn, mae'r ymgynghoriad yn gyfyngedig i'r cyrff hynny y cynigir eu bod yn cael eu dynodi yn y Gorchymyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyllid.

Cafodd yr ymgynghoriad ei anfon ar 1 Mai i'r cyrff hynny y cynigir eu dynodi yn y Gorchymyn. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn cyfarfod â'r rheini yr ymgynghorir â nhw i drafod unrhyw faterion y maent am eu codi neu bwyntiau y maent am iddynt gael eu hegluro, cyn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad erbyn 31 Gorffennaf.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn categoreiddio'r holl gyrff, y cynigir eu dynodi, fel rhai yn y sector llywodraeth ganolog, neu disgwylir iddi eu categoreiddio felly. Dyma'r ffon fesur y mae fframwaith gwariant cyhoeddus y DU yn ei defnyddio ar gyfer sut y mae gweithgarwch cyllidebol cyrff cyhoeddus yn cael ei weithredu a'i lywodraethu.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.